GREEN GEN CYMRU

GREEN GEN CYMRU

Polisi Safleoedd a Rhywogaethau Gwarchodedig

Mawrth 2026

POWERING
A POSITIVE
ENERGY FUTURE
FOR WALES

greengencymru.com

TABL CYNNWYS

1.0 Diben a Chwmpas 3

2.0 Cefndir a Chyd-destun 3

2.1 Rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig 4

2.2 Dyletswyddau eraill 4

3.0 Polisi Safleoedd a Rhywogaethau Gwarchodedig 5

3.1 Diffiniadau: 5

3.2 Asesiad risg 5

3.3 Asesiad Risg Safle Gwarchodedig 6

3.4 Adolygu Asesiadau Risg Negyddol 6

3.5 Cadw Cofnodion 7

3.6 Dogfennau a Chyfeiriadau 7

1.0 Diben a Chwmpas

1.1) Mae'r polisi hwn wedi'i baratoi am y rhesymau canlynol:

- Fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO) trwyddedig, mae Green GEN yn ddarostyngedig i ystod o ddyletswyddau statudol sy'n ymwneud â safleoedd dynodedig penodol a chynefinoedd, ac mae rhai rhywogaethau (ble bynnag y cânt eu canfod) wedi'u gwarchod yn gyfreithiol.
- Bydd angen i Green GEN a'i gontractwyr gynnal ystod o arolygon mewn neu ger safleoedd gwarchodedig o'r fath, neu a all ddod ar draws rhywogaethau gwarchodedig, er mwyn cefnogi datblygu, adeiladu, gweithredu a chynnal ei asedau seilwaith.
- Mae cael gwybodaeth gyfredol a chywir o arolygon ynghylch safleoedd a rhywogaethau gwarchodedig yn bwysig i alluogi Green GEN i gyflawni ei swyddogaethau.
- Felly, mae'n hanfodol bod gan Green GEN systemau effeithiol ar waith i fodloni ei ddyletswyddau statudol wrth gynnal arolygon.
- Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob arolwg a gynhelir gan Green GEN neu ei gontractwyr, waeth a yw mynediad i'r tir drwy gytundeb, pwerau statudol, neu berchnogaeth/trefniadau hawliau.

2.0 Cefndir a Chyd-destun

2.1) <u>Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981</u>

Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (y 'WCA 1981') yn darparu ar gyfer diogelu ystod o safleoedd dynodedig statudol, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs) a safleoedd Ramsar. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau diogelu penodol ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau o adar, planhigion ac anifeiliaid eraill.

2.2) Fel IDNO trwyddedig, mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n berthnasol i Green GEN:

- Mae Adran 28G yn gosod dyletswydd ar Green GEN, i'r graddau y mae arfer ei swyddogaethau yn debygol o effeithio ar nodweddion SSSI y mae wedi'i warchod ar ei chyfer, "i gymryd camau rhesymol, yn unol ag arfer priodol ei swyddogaethau, i hyrwyddo cadwraeth a gwella'r fflora, ffawna neu'r nodweddion daearegol neu ffisiograffig sy'n gwneud y safle'n un o ddiddordeb gwyddonol arbennig."
- Mae Adran 28H yn ei gwneud yn ofynnol i Green GEN roi rhybudd i'r corff perthnasol cyn cyflawni, wrth arfer ei swyddogaethau, unrhyw weithrediadau sy'n debygol o niweidio unrhyw un o'r fflora, ffawna neu'r nodweddion daearegol neu ffisiograffig sy'n sail i ddynodi safle fel un o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

- Mae Adran 28I yn berthnasol pan fo angen caniatâd Green GEN cyn cynnal gweithrediadau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Green GEN roi rhybudd i'r corff perthnasol os yw'r gweithrediadau y mae ei ganiatâd arnynt yn debygol o niweidio unrhyw un o'r fflora, ffawna neu'r nodweddion daearegol neu ffisiograffig sy'n sail i ddynodi'r safle. Gall y corff perthnasol roi ei gydsyniad i'r gweithrediad, a gall hynny fod yn ddarostyngedig i amodau.

2.1 Rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig

2.1.1) Yn ogystal â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae ystod o amddiffyniadau cyfreithiol eraill ar waith ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd. Mae'r rhain yn cynnwys (heb fod yn gynhwysfawr):

- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, sy'n diogelu rhai safleoedd dynodedig, rhai rhywogaethau a'u cynefinoedd a mannau gorffwys;
- Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017, sy'n diogelu rhai safleoedd morol, rhai rhywogaethau morol, eu cynefinoedd a'u mannau gorffwys;
- Deddf Diogelu Moch Daear 1992, sy'n diogelu moch daear a'u setiau;

2.1.2) Mewn rhai achosion, dim ond yn unol â thrwydded a roddir o dan y ddeddfwriaeth berthnasol y gellir cynnal rhai technegau arolygu sy'n ymwneud â rhywogaethau gwarchodedig. Er enghraifft, gall tagio ac olrhain rhywogaethau ystlumod gwarchodedig olygu eu tarfu, ac felly bydd angen trwydded a roddir gan y corff perthnasol o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

2.2 Dyletswyddau eraill

2.2.1) O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae Green GEN o dan ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ei swyddogaethau yng Nghymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag arfer priodol ei swyddogaethau. Bydd cynnal arolygon yn briodol yn cynorthwyo Green GEN i ddeall sut y gall ei gynigion gyfrannu at gyflawni'r dyletswyddau hyn.

3.0 Polisi Safleoedd a Rhywogaethau Gwarchodedig

3.1 Diffiniadau:

a) “**Rheolwr Tir**” yw rheolwr tir Green GEN sy’n gyfrifol am y prosiect y cynigir cynnal yr arolygon ar ei gyfer;
b) “**Cyfarwyddwr Prosiect**” yw cyfarwyddwr prosiect Green GEN sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y prosiect y cynigir cynnal yr arolygon ar ei gyfer;
c) “**Safle Gwarchodedig**” yw safle sy’n destun dynodiad rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth;
d) “**SSSI**” yw safle a hysbyswyd fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;
e) “**Arolygydd**” yw’r personél, boed yn staff Green GEN ei hun neu’n unigolion wedi’u contractio ganddo, sy’n gyfrifol am gynnal yr arolwg arfaethedig;

3.2 Asesiad risg

1. Rhaid paratoi asesiad risg ar gyfer arolygon cyn mynd i’r safle. Rhaid i asesiadau risg ystyried effeithiau ar fflora a ffawna gwarchodedig ac arbennig, a byddant yn cynnwys y mesurau i’w mabwysiadu ar gyfer cadw trefn dda a bioddiogelwch (sy’n rhaid o leiaf gydymffurfio â Phrotocol Bioddiogelwch Green GEN) a hefyd atal trosglwyddo micro-organebau a halogion.

2. Rhaid ystyried llwybrau mynediad a gadael ar gyfer arolygon, yn enwedig lle bwriedir gyrru cerbydau ar ardaloedd llystyfiant (e.e. glaswelltir) oddi ar y ffordd.

3. Ar gyfer gweithgareddau arolygu sy’n gofyn am waith rheoli llystyfiant, torri tir, arolygon ymledol, gwaith mewn dŵr, neu unrhyw beth a allai arwain at gynnydd sylweddol mewn lefelau sŵn neu ddirgryniad – rhaid trafod hyn gyda’r rheolwr amgylcheddol a gweithredu lliniaru priodol. Lle bo angen, bydd ecolegydd profiadol addas hefyd yn cael ei ymgynghori am gyngor pellach ac, os oes angen, penodir clerc ecolegol gwaith i oruchwylio’r gweithgareddau.

4. Pan fo gwaith rheoli llystyfiant neu arolygon ymledol yn ofynnol, rhaid rhoi ystyriaeth i’r cynefinoedd a’r rhywogaethau a all fod yn bresennol yn y safle arolygu neu’n gyfagos iddo. Bydd hyn yn seiliedig ar wybodaeth desg a data a gasglwyd o arolygon safle blaenorol yn yr ardal. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth i safleoedd dynodedig a rhywogaethau goresgynnol nad ydynt yn frodorol.

5. Lle bo angen, rhaid i arolygwyr ecolegol fod â thrwydded rhywogaethau gwarchodedig sy’n berthnasol i’r math o arolwg ecolegol sy’n cael ei gynnal.

3.3 Asesiad Risg Safle Gwarchodedig

1. Cyn cynnal yr arolwg, rhaid i'r Arolygydd gynnal ymholiadau desg er mwyn pennu a yw safle'r arolwg arfaethedig yn:

    a) Safle Gwarchodedig;
    b) SSSI;neu
    c) O fewn agosrwydd i Safle Gwarchodedig neu SSSI.

2. Os yw'r safle yn Safle Gwarchodedig, yn SSSI, neu o fewn agosrwydd i Safle Gwarchodedig neu SSSI, rhaid i'r Arolygydd adolygu'r dynodiad perthnasol a nodi'r nodweddion y cafodd y Safle Gwarchodedig neu'r SSSI perthnasol ei ddynodi ar eu sail (y "**Nodweddion Gwarchodedig**"). Rhaid i asesiad risg cyn-arolwg yr Arolygydd bennu a yw'r arolwg arfaethedig yn debygol o niweidio'r Nodweddion Gwarchodedig, gan ystyried pob ffactor perthnasol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

    a) Yr amser a'r tymhoroldeb y cynigir cynnal yr arolwg ynddynt;
    b) Natur y gweithrediad arolwg, gan gynnwys unrhyw fesurau a fabwysiadwyd wrth gynnal yr arolwg a fyddai'n lleihau'r tebygolrwydd o ddifrod i'r Nodweddion Gwarchodedig.

3. Os bydd yr asesiad risg yn penderfynu nad yw'r arolwg yn debygol o achosi difrod i'r Nodweddion Gwarchodedig (sef "**Asesiad Risg Cadarnhaol**"), rhaid adrodd y casgliad hwn a'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwnnw, ynghyd â chopi o'r Asesiad Risg Cadarnhaol, i'r Rheolwr Tir.

4. Os bydd yr asesiad risg yn penderfynu bod yr arolwg yn debygol o achosi difrod i'r Nodweddion Gwarchodedig (sef "**Asesiad Risg Negyddol"),** rhaid adrodd y casgliad hwn a'r rhesymau dros ddod i'r casgliad hwnnw, ynghyd â chopi o'r Asesiad Risg Negyddol, i'r Rheolwr Tir, ac **ni ddylid cynnal yr arolwg arfaethedig nes ei fod wedi ei gymeradwyo gan y Rheolwr Tir yn unol â'r polisi hwn**.

3.4 Adolygu Asesiadau Risg Negyddol

1. Ar ôl derbyn Asesiad Risg Negyddol, rhaid i'r Rheolwr Tir adolygu'r cynnig a phenderfynu, gan gymryd cyngor priodol, a ellid ymdrin â'r arolwg arfaethedig mewn modd amgen a fyddai'n osgoi difrod tebygol i'r Nodweddion Gwarchodedig. Lle bo'r Rheolwr Tir yn fodlon y gellir cynnal yr arolwg arfaethedig mewn modd sy'n osgoi difrod tebygol i'r Nodweddion Gwarchodedig, gall y Rheolwr Tir gymeradwyo'r arolwg, a rhaid i'r Syrfëwr gynnal yr arolwg hwnnw yn y modd amgen a gymeradwywyd.

2. Os daw'r Rheolwr Tir i'r casgliad:

    a) na ellir cyflawni amcanion yr arolwg mewn unrhyw ffordd arall; a
    b) nad oes unrhyw ddulliau amgen y gellid cynnal yr arolwg i osgoi'r tebygolrwydd o achosi difrod i'r Nodweddion Gwarchodedig,

    yna rhaid i'r Rheolwr Tir beidio â chymeradwyo cynnal yr Arolwg hyd nes naill ai (i) bod Cyfoeth Naturiol Cymru neu Natural England (fel y bo'n briodol) wedi rhoi cydsyniad neu (ii) bod y Rheolwr Tir yn fodlon bod yr amodau a gyfeirir atynt yn adran 28H(4) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 wedi'u bodloni neu fod y gweithdrefnau yn adran 28I o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 wedi'u cwblhau, fel y bo'n briodol.

3. Mae adran 28P o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn nodi amrywiaeth o droseddau a all gael eu cyflawni drwy beidio â chydymffurfio â'i thelerau. O ystyried cymhlethdod posibl y risgiau hyn, rhaid i Reolwyr Tir ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Prosiect a chael cyngor cyfreithiol a thechnegol priodol cyn cymeradwyo unrhyw Arolwg o dan y paragraff uchod.

3.5 Cadw Cofnodion

1. Rhaid i'r Syrfëwr gadw cofnodion clir o'r holl asesiadau risg a gynhaliwyd a'u darparu i'w harchwilio ar gais Green GEN – gellir defnyddio System ACONEX er hwylustod wrth eu hadfer.

2. Rhaid i'r Rheolwr Tir gadw cofnodion o'r holl benderfyniadau a wnaed mewn perthynas ag Asesiadau Risg Negyddol.

3.6 Dogfennau a Chyfeiriadau

Cyfeiriadau –
Datganiad Polisi Amgylcheddol a Chynaliadwyedd Green GEN Cymru